**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**14 MAI 2018**

# ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG - I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG 2017 – 2018

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN TRAFODAETH Â'R AELOD PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNGHORYDD G. HOPKINS**

**Awduron:** Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg (01443 570002)

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2017-2018 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;

2.2 Argymell bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2018 fan bellaf.

2.3 Gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

## 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg

(Cymru) 2011, i baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- y safonau darparu gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau llunio polisïau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw

## 4. CEFNDIR

4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.2 Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Arweiniodd hyn at y dyddiad gosod ar gyfer cyflawni agweddau 3 safon (52, 58 a 64 [1] ) ei ohirio tan 31 [ain] Mawrth 2018, felly dydy'r cynnydd yn erbyn y rhain ddim yn rhan o'r adroddiad cydymffurfio hwn. Bydd y cynnydd ar weithredu Safonau 52, 58 a 64 yn cael ei adrodd y flwyddyn nesaf. (Disgwylir y bydd cydymffurfio â hwy yn her sylweddol).

4.3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn cwmpasu'r ail flwyddyn lawn o weithredu'r safonau - o 1 Ebrill 2017 i 31 [ain] Mawrth 2018. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Cyngor a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2018, fan bellaf.

4.4 Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

4.5. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i adroddiad blynyddol eleni gynnwys y canlynol:

---

[1] Safon 52 - doedd dim gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â gwefannau ac eithrio'r wefan corfforaethol tan 31/3/2018.
Safon 58 - cafodd y gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol ac eithrio prif gyfrif y Cyngor ei symud i 31/3/2018.
Safon 64 - cafodd ardaloedd a ddiffinnir fel 'gwasanaeth derbynfa' (er enghraifft, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden ac ati) ac eithrio prif gwasanethau derbynfa'r Cyngor ei symud i 31/8/18.

*(1) nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisïau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw*
*(2) nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw*
*(3) nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
*(4) canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
*(5) nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysu yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.*

## 5. Camau Nesaf

5.1 Os bydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn penderfynu argymell yr Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu a bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi iddo yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

5.2. Rydyn ni'n rhagweld y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi adborth ar yr adroddiad, ynghyd ag argymhellion, yn ystod yr Hydref.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 7. YMGYNGHORI

Doedd cynnal proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma, er i'r holl feysydd gwasanaeth gyfrannu data at yr adroddiad drwy eu prosesau hunanwerthuso.

## 8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

Does dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

## 9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

## 10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015

10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawsdoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.

10.2 Mae'r Adroddiad Cydymffurfio yn amlinellu gwaith y Cyngor o ran cydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws y sir. Bydd cyflawni'r safonau yn atal cwynion gan drigolion sy'n methu â manteisio ar wasanaethau o du'r Cyngor yn y Gymraeg.

10.3 Mae cynnwys yr adroddiad yn perthyn yn uniongyrchol i Nod 6 o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. Bydd cydymffurfio â'r Safonau'n gefn i normaleiddio'r Gymraeg a sicrhau na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny.

## 11. CASGLIAD

Dyma'r trydydd adroddiad monitro blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor sy'n nodi sut mae wedi cydymffurfio â'r Safonau statudol y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â nhw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd da a wnaed gan feysydd gwasanaeth wrth ymgorffori trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith, yn enwedig o ystyried goblygiadau'r safonau ychwanegol (52, 58 a 64).